
Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau

Canlyniadau arolwg ar-lein Ofcom ar gyfer wythnos 1

1. Trosolwg

Mewn ymateb i Covid-19, mae Ofcom wedi comisiynu arolwg ar-lein wythnosol parhaus o oddeutu 2,000 o ymatebwyr, er mwyn monitro sut mae pobl yn cael newyddion a gwybodaeth am yr argyfwng. Mae'r ymchwil hon wedi cael ei dylunio i helpu amryw o randdeiliaid gyda'u gweithgareddau yn ystod y cyfnod hwn. Mae gwaith maes yn cael ei gynnal bob penwythnos – cynhaliwyd y don gyntaf yma rhwng 27 a 29 Mawrth 2020 – lle gofynnir i bobl am eu harferion a'u hagweddau yn ystod y saith niwrnod diwethaf. Roedd y cyfnod hwn yn cyd-daro â'r mesurau 'aros gartref' a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ddydd Llun 23ain Mawrth, ac felly mae wythnos o'n harolwg yn cyfateb i wythnos un o'r DU gyda 'chyfyngiadau symud'.

Dylid nodi, gan mai methodoleg panel ar-lein ydyw, fod canfyddiadau'r arolwg yn cynrychioli barn ac arferion 87% o boblogaeth y DU sydd ar-lein¹.


2. Prif ganfyddiadau

Cael gafael ar newyddion a gwybodaeth am Covid-19

- Yn ystod wythnos gyntaf y 'cyfyngiadau symud', roedd bron i holl boblogaeth ar-lein y DU (99%) yn cael gafael ar newyddion a gwybodaeth am Covid-19 o leiaf unwaith y dydd. Dywedodd chwarter (24%) eu bod yn cael newyddion 20 gwaith neu fwy bob dydd.
- Gwasanaethau'r BBC yw'r ffynhonnell a ddefnyddir fwyaf o bell ffordd (gweler Ffigur 1). Dywed pedwar o bob pump (82%) eu bod yn defnyddio'r BBC fel ffynhonnell newyddion/gwybodaeth. Roedd ychydig dros hanner yn defnyddio darlledwyr ar wahân i'r BBC (56%), yna swyddogion (52%), cyfryngau cymdeithasol (49%), y wasg naill ai ar-lein neu wedi'u hargraffu (43%) a theulu, ffrindiau neu bobl leol (42%). Mae 15% yn dweud eu bod yn defnyddio grwpiau caeedig, fel grwpiau WhatsApp a Facebook messenger.

¹ Ofcom, [En Gwlad Ar-lein](#) 2019

Ffigur 1: Ffynonellau a ddefnyddiwyd i gael newyddion/gwybodaeth am Covid19: wythnos un



Ffynhonnell: Arolwg newyddion Covid-19 Ofcom, Mawrth 2020

Nodyn: Mae 'ffynonellau newyddion eraill ar-lein' yn cyfuno tri math o ffynhonnell: gwefannau/apiau sy'n cynnwys sefydliadau newyddion ar-lein, fel BuzzFeed, Huffington Post, Vice ac ati; gwefannau neu apiau sy'n dod â newyddion oddi wrth ddarparwyr newyddion gwahanol at ei gilydd; a ffynonellau newyddion nad ydynt yn rhai prif-ffrwd fel Russia Today, Breitbart, Swawkbox ac ati

- Pan ofynnir i bobl enwebu eu ffynhonnell bwysicaf ar gyfer newyddion/gwybodaeth am Covid-19, dywedodd 36% teledu'r BBC, roedd 16% yn dewis canfod yn uniongyrchol o ffynonellau swyddogol (fel Sefydliad Iechyd y Byd, y GIG, Llywodraeth, ayb), roedd 12% yn dewis ddarlledwyr ar wahân i'r BBC, roedd 12% yn dewis BBC Online ac roedd 5% yn dewis y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r patrwm ymysg pobl ifanc 18-24 oed ychydig yn wahanol, gyda 11% yn enwebu cyfryngau cymdeithasol o'i gymharu â 4% o'r rhai 35 oed a hŷn, er mai teledu'r BBC (29%) yw'r pwysicaf o hyd.
- Yn gyffredinol, mae pobl yn dweud eu bod yn defnyddio sefydliadau cyfryngau yn fwy nag oeddent cyn dechrau'r feirws; mae 65% yn honni eu bod yn defnyddio sefydliadau sy'n gweithredu ledled y DU (llawer neu ychydig) yn fwy nag o'r blaen, a 38% yn honni eu bod yn defnyddio mwy ar sefydliadau cyfryngau lleol.
- Er bod un o bob deg (11%) yn dweud nad ydynt yn rhannu gwybodaeth am Covid-19, mae'r mwyafrif helaeth yn gwneud hynny, yn bersonol/dros y ffôn yn bennaf (81%). Mae traean (34%) yn rhannu drwy gyfrwng cyfathrebu ysgrifenedig mewn grwpiau caeedig, Zoom, Teams ac ati, a 25% drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dywed un o bob pump (21%) eu bod yn rhannu drwy fideo.

Camwybodaeth am Covid-19


- Dywed bron i hanner yr ymatebwyr (46%) eu bod wedi cael gwybodaeth ffug neu gamarweiniol² am Covid-19 yn ystod yr wythnos diwethaf. Mae pobl ifanc 18-24 oed yn fwy tebygol o ddweud hyn (58%) o'i gymharu â'r rheini sy'n 65 oed neu'n hŷn (33%). Mae pobl o aelwydydd cymdeithasol-demograffig AB yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dod ar draws yr wybodaeth hon (53%) na phobl o aelwydydd C2 a DE (44% a 36% yn y drefn honno).
- O'r rheini a welodd gamwybodaeth, dywed dwy ran o dair (66%) eu bod yn ei gweld o leiaf unwaith y dydd. Y darn mwyaf cyffredin o gamwybodaeth yr oedd pobl wedi'i gweld (o restr a ddarparwyd) oedd yfed dŵr yn amlach, gyda 35% yn dweud eu bod wedi gweld hyn. Roedd 24% wedi gweld "garglo gyda dŵr halt", ac roedd yr un ganran wedi gweld "bwyta bwyd/diod cynnes ac osgoi bwyd/diod oer". Roedd 22% wedi gweld "defnyddio mwy o feddyginiaethau naturiol fel arian coloidaidd, olewon hanfodol, garlleg, MMS (clorin deuocsid) neu fitamin C" ac roedd 11% wedi gweld "rhoi dillad yn yr haul i'w diheintio" ac roedd 10% wedi gweld "yfed mwy o sudd lemwn".
- Dywedodd ychydig dros hanner (55%) o'r rheini a welodd gamwybodaeth nad oeddent wedi gwneud dim byd am y mater. Dywedodd 15% eu bod wedi defnyddio cyngor gan y cyfryngau megis gwefan y BBC; roedd 13% wedi holi ffrindiau a theulu; roedd 10% wedi defnyddio adnodd gwirio ffeithiau; ac roedd 7% wedi'i riportio neu wedi'i rwystro. Dywedodd 7% eu bod wedi'i hanfon ymlaen.

Cyngor swyddogol am Covid-19

- Mae bron i bob ymatebydd yn dweud eu bod yn dilyn y cyngor swyddogol (yn gaeth neu weddol gaeth) o ran cadw pellter cymdeithasol (98%), gan fynd allan dim ond ar gyfer pethau hanfodol (97%) ac yn golchi eu dwylo'n rheolaidd (96%) (gweler Ffigur 2).

² Nid yw geiriad cwestiwn yr arolwg yn gwahaniaethu rhwng camwybodaeth sy'n cael ei riportio felly, a chamwybodaeth sy'n cael ei lledaenu'n fwriadol.

Ffigur 2: I ba raddau mae pobl yn dilyn cyngor swyddogol: wythnos un



Ffynhonnell: Arolwg newyddion Covid-19 Ofcom, Mawrth 2020. Nodyn: Efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

Agweddau tuag at Covid-19 a'r sylw yn y cyfryngau

- Ffynonellau swyddogol yw'r rhai mwyaf dibynadwy. Mae naw o bob deg neu fwy o'r rheini sy'n defnyddio'r ffynonellau swyddogol yn ymddiried yn y GIG (95%) Sefydliad Iechyd y Byd (94%), gwasanaethau iechyd lleol (91%), gwyddonwyr swyddogol (90%) a'r llywodraeth (89%). Mae darlledwyr traddodiadol yn ddibynadwy iawn hefyd, gydag 83% o ddefnyddwyr yn ymddiried yn nheledu'r BBC, 83% yn Channel 4, 82% yn ITV, a 75% yn Sky. Y ffynonellau lleiaf dibynadwy yw cyfryngau cymdeithasol a grwpiau caeedig lle mae rhwng un o bob pump ac un o bob pedwar defnyddiwr yn dweud eu bod yn ymddiried yn y newyddion a'r wybodaeth am Covid-19 a geir ynddyn nhw.
- Mae bron i un o bob pump (17%) o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn 'ddryslyd ynghylch yr hyn y dylen nhw fod yn ei wneud i ymateb i Covid-19' ac mae 40% yn cytuno ei bod hi'n 'anodd gwybod beth sy'n wir a beth sy'n gelwydd am Covid-19'. Roedd pobl 18-24 (52%) yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn ei chael yn anodd gwybod beth sy'n wir a beth sy'n gelwydd o'u cymharu â'r rheini sy'n 65 oed neu'n hŷn.
- Mae un o bob pump (22%) yn cytuno eu bod yn 'ceisio osgoi newyddion am Coronafeirws', ac mae 17% yn cytuno bod 'y cyfryngau prif ffrwd yn gorliwio difrifoldeb Covid-19', er mai dim ond 5% sy'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn.
- Yn olaf, mae 86% yn cytuno bod yr argyfwng wedi amlygu ochr gadarnhaol i gymdeithas, gyda 42% yn cytuno'n gryf bod hyn yn wir.